

RHONDDA CYNON TAF

ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYNGHORYDD

Dyma adroddiad y Cyngorydd Ann Crimmings ynglŷn â'i gweithgareddau allweddol dros y flwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2018. Mae'n cael ei gyhoeddi er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall.

*Mae cyngorwyr yn rhydd i gynnwys cymaint neu gyn lleied o wybodaeth ag y maen nhw'n dymuno ym mhob adran, fodd bynnag, rhaid cadw'r adroddiad i'r fformat **2 dudalen (uchafswm)**.*

Cyngorydd: Ann Crimmings

Ardal etholiadol: Gorllewin Aberdâr/Llwydcoed

Adran 1: Swyddogaeth a Chyfrifoldebau

Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd a Hamdden

- Hamdden
- Glanhau'r Strydoedd
- Gwastraff ac Ailgylchu
- Gwasanaeth Trafnidiaeth
- Goleuo strydoedd
- Hawliau Tramwy Cyhoeddus
- Cerbydau
- Adran Parciau a Chefn Gwlad
- Cludiant rhwng y Cartref a'r Ysgol
- Prosiectau Strategol
- Gwasanaeth Treftadaeth ac Atyniadau ac Atynfeydd i Ymwelwyr
- Gwasanaethau Diwylliannol (Prosiectau Strategol)
- Cynllunio ar gyfer argyfyngau

Adran 2: Gweithgarwch yn yr Etholaeth

Yn ystod 2017/18, rwyf wedi parhau i weithio'n agos gyda'm Cydweithwyr yn y Ward i gefnogi trigolion sydd ag unrhyw bryderon neu faterion i'w codi. Rwyf hefyd yn gweithio'n agos ag Ann Clwyd AS a Vikki Howells AC, gan roi cymorth iddyn nhw pan fyddan nhw'n delio â'u Gwaith Achos.

Rwyf wedi helpu unigolion, teuluoedd, busnesau a grwpiau, gan sicrhau fy mod i ar gael i gynnig cyngor i ddatrys unrhyw broblemau y maen nhw'n eu hwynebu.

Rwyf hefyd yn mynychu cyfarfodydd misol Heddlu a Chymunedau Gyda'i Gilydd (PACT), gan weithio ar y cyd â Swyddogion yr Heddlu, Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, Swyddogion y Cyngor a Chymdeithasau Tai i fynd i'r afael â materion sy'n effeithio ar y gymuned, fel ymddygiad gwrthgymdeithasol, iechyd y cyhoedd a thrafnidiaeth a thrwyddedu. Yn ogystal â hyn, rwyf hefyd yn mynychu sesiynau briffio rheolaidd yr Arolygydd yng ngorsaf yr Heddlu Aberdâr.

A minnau'n Gadeirydd y Llywodraethwyr yn Ysgol Gynradd Parc Aberdâr, rwy'n cyfarfod yn rheolaidd gyda'r Pennaeth a'r Llywodraethwyr i drafod sut mae'r ysgol yn gweithredu.

Rwy'n cefnogi nifer o grwpiau yn y gymuned, gan gynnwys Cwmdare Voices a Chôr Merched Dare to Sing. Rwyf hefyd yn falch o gael fy ngofyn i fod yn Llywydd 'Showcase'.

A minnau'n Gadeirydd y Pwyllgor Trefnu ar gyfer Rasys Nos Galan, rwyf wedi parhau i weithio gyda Swyddogion y Cyngor a gwirfoddolwyr i gynnal yr achlysur, a hynny yn y gwaith cynllunio ac hefyd wrth fod yn farsial ar y noson.

Mae'r gweithgareddau sy'n cael eu trefnu gan Bwyllgor #Cwmdare for Cwmdare# (C4C) yn parhau i fod yn boblogaidd, e.e. helpa wyau'r Pasg, taith i'r traeth, taith siopa Nadolig, Carolau ar y Sgwâr, a gwahanol bartion. A minnau'n Ysgrifennydd y Pwyllgor yma, rwyf hefyd wedi llwyddo i ennill cyllid ar gyfer prosiect Celf/Mosaig sy'n cynnwys yr ysgol leol. Ar hyn o bryd rydyn ni'n gweithio gyda chwmni adeiladu lleol i adeiladu'r strwythur lle bydd y mosaig yn cael ei osod. Rydyn ni hefyd yn gweithio'n agos gydag Ysgol Cwmdâr ar weithgareddau y mae'r gymuned ehangach yn elwa arny'n nhw.

Gan weithio gyda staff Parc Gwledig Cwm Dâr, rydyn ni bellach yn casglu sbwriel bob mis, gan annog y gymuned i ymuno â ni.

Rwyf hefyd yn mynychu cyfarfodydd Grŵp Cyswllt Bryn Pica.

Adran 3: Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

Rwy'n Ysgrifennydd grŵp newydd Cyfeillion Parc Aberdâr. Mae'r pwyllgor yma'n gweithio ochr yn ochr â'r adran Parciau sy'n darparu cefnogaeth i sicrhau bod y parc yn cael ei ddefnyddio i'w llawn botensial. Rydyn ni wedi cynnal nifer o brosiectau, gyda rhagor ar y gweill. Un ohonyn nhw yw'r 'Parkrun' newydd wythnosol.

Adran 4: Dysgu a Datblygu

- Cod Ymddygiad
- Hyfforddiant ar gyfer Ymddiriedolwyr
- Twitter/LinkedIn

Adran 5: Gweithgareddau a Materion Eraill

Llofnod y Cynghorydd:

Dyddiad: 04 Mai 2018